CYNGOR BRO LLANLLWNI CYFARFOD MIS MEDI 2015

Cynhaliwyd y Cyfarfod yn Neuadd Gymunedol Llanllwni

Cyng Dewi Davies (Cadeirydd)
Eirlys Owen (Clerc)

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau i'r cyfarfod a dymunwyd yn dda i Tom Bowen ar ddathlu ei benblwydd yn 70 oed yn ddiweddar.

PLISMONA:
Croesawyd Alice James i'r cyfarfod. Cafwyd trafodaeth ar ddiogelwch yn gyffredinol.

Cadarnhawyd cywirdeb cofnodion mis Gorffennaf gan Eric Davies ac eiliwyd gan Eurig Thomas. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

AGENDA
Yr oedd y Clerc wedi rhoi poster yn y Swyddfa Bost yn hysbysebu'r cyfarfod.

DIWRNOD HWYL 11 GORFFENNAF 2015
Yr oedd y diwrnod hwyl wedi bod yn ddiwrnod llwyddianus a diolchwyd i bawb am y gefnogaeth. Penderfynwyd i ddanfon llythyr o diolch i Glandulais am gael defnyddio'r cae i barcio yn ystod y dydd.

Y CAE CHWARAE
Cadarnhawyd bod y maes chwarae a'r adnoddau wedi eu harchwilio yn fanwl yn ystod yr wythnosau diwethaf gan Tom Jones ac Eric Davies. Nid oedd damweiniau i'w cofnodi ar y cae chwarae ond penderfynwyd y byddai'r Clerc yn archebu llyfr i gadw cofnod pe byddai damwain i'w chofnodi yn y dyfodol. Diolchwyd i Melfyn Evans am ei waith, ac i'r gwirfoddolwyr a fuodd yn gosod y ford bicnic a'r seddau yn y lle priodol.

CAIS AM GRANT LLWYBRAU DIOGEL MEWN CYMUNEDAU
Nid oedd y Clerc wedi derbyn unrhyw wybodaeth ond cafwyd eglurhad y byddai'r penderfyniad yn cael ei wneud yn ystod y pythefnos nesaf.

GWEFAN LLANLLWNI
Penderfynwyd y byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau erbyn y cyfarfod nesaf.

TYLLAU YN YR HEWL
Glennydd - Cwmderi.
Fferm Talardd – Aberceiliog.
Ffynonddrain – Gwarcwm.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a'u brwdfrydedd dros y plwyf.

Bydd y cyfarfod nesaf yn Neuadd Gymunedol Llanllwni am 09 Tachwedd am 8yh.